

17/1/20

5.224

CARDIFF TIM

"MARTYRS OF THE MANSE." THE SECOND BEST.

Gwill adjudged the translation sent in by "Luc xxii. 28" to be the second best, and in response to several requests we reproduce his Cymric rendering of the poem:—

MERTHYRON TY'R GWEINIDOG. (Cyf. o "Martyrs of the Manse.")

Plyciai'i ddwylo wrth y cwrlid yn ddibaid;
a choel oedd hyn

Fod rhyw anwel law'n cyfeirio tuag agos ffin
y glyn.

Nid oedd namyn llaw cyflogddyn yno i gau'i
amrantau ei.

Eto, teimlai un a'i gwyliai'n annwyl, fel o
borth y Nef.

Llefarasai hi wrth farw, gan gipdremio'n
fwyn a chun:—

"Unig iawn ar ol fy myned fydd y ty, fy
annwyl un.

Hir a chaled fu y siwrnai, dyrys iawn
fu'n llwybyr ni:

Cariad Iesu, hynny'n unig ydoedd a'm
cynhaliodd i.

Bara a dwfr a addawodd Duw yn sail i
stor y llawr,—

Pam y blysiwn fwy na hynny sydd i'w
bobl yn syndod mawr.

Pe b'ai'n gwaith o radd fydolwch,
arbedasid adfyd in':

Na roer ar fy arch mo'u blodau, gwedi
'stori'r cwpwrdd prin."

Ac, a'i geiriau eto'n swnio ar ei glyw, fel
twri y traeth,

Fe agorai'r drws yn araf, a'r diaconiaid
weithian ddaeth.

Gan ddynesu'n wyl a phendrist o'r prif wr,
ebychai o:—

"Fugail, daethom yma i ddiolch, a ffar-
welio'r olaf dro.

'Gawn ni air a fo'n gynhorthwy o'i ail-
adrodd gennym ni,

Hwyrach, dext, neu air o gyngor, a
oroesa'ch angladd chwi?"

Gwenodd yntau'n welw a thostur,—gan
weddio. Ac eb efe:—

"Cewch; mae'n bryd: Geill fod o
gymorth i f'olynydd yn y lle.

Diau, gweddill dydd na ddychwel
mwyach ydyw'r bregeth faith.

'Gwneler cyfri' mawr ohonynt, medd y
Gair, 'er mwyn eu gwaith.'

Maith fu'm llafur innau yma: t'wysais
rai i'r Dalgraig wiw;

Do, bugeiliais eich eneidiau—heb ym-
bleidio ág undyn byw.

Gwyliais un ar yndaith Cariad drwy
eich dinas yma 'thraw,

Mewn esgidiau brau, a hugan a bwr-
casodd hi'n ail-law.

Mawr yw'ch clod i'w bywyd santaid,—
ail i neb nid ydoedd hi,

Eto, er hawlio'n llafur dyblyg, cyflog un
a dal'soch chwi.

Rhynnwn innau yn fy llyfrgell—yn swm
bwm eich masnach gref;

Ni chawn gyflog stryd-ysgubwr—anghof-
iasoch Hawl y nef:

Syniech—tybed, ai eneidiau, ynte elw, a
aeth â'm bryd?

Cydymddygwch â mi, ffryndiau. Goreu i
gall y gwir i gyd.

Od yw'ch parch i wâs yr Arglwydd eto i
droi'n grintachrwydd llym,

Mynnwch angel yn eich pulpud, na raid
iddo wrth luniaeth ddim."

Yna'r bugail a ben-grymodd wrth ymado
ohonynt hwy,

A chan eiddil blycio'r cwrlid—syllai at borth
y Bywyd Mwy.